

	FFAIR GYRFAOEDD CAERFYRDDIN	CARMARTHEN CAREERS FAIR
	🕒 Dydd Mawrth 4^{ydd} Tachwedd 2025 11am - 2pm	🕒 Tuesday 4th November 2025 11am - 2pm
	📍 Neuadd Chwaraeon, Campws Caerfyrddin PCYDDS	📍 Sports Hall, UWTSO Carmarthen Campus



Am ragor o wybodaeth,
cysylltwch â:
careers@uwtsd.ac.uk

For more information,
contact:
careers@uwtsd.ac.uk

FFAIR YRFAOEDD 2025: CYNGOR CALL

Mae mynychu ffair yrfaedd yn gyfle gwych i siarad ag ystod eang o sefydliadau am eu swyddi gwag, cyfleodd gwirfoddoli a swyddi i raddedigion.

Mae siarad wyneb yn wyneb ag arddangoswyr yn rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau pwysig a chwilio am gyfleoedd nad ydych o bosib wedi eu hystyried. Er enghraifft, cewch ddysgu am brofiad gwaith y bydd arnoch ei angen efallai, cyfrifoldebau, hyfforddiant, prosesau ymgeisio, a diwylliant y cyflogwr hyd yn oed. Os ydych wedi paratoi'n dda ac yn defnyddio'ch amser yn gall, gallech ddysgu gwybodaeth werthfawr i'ch helpu yn y dyfodol.

Gall y ffair hefyd fod yn gyfle gwych i ddysgu rhagor am sectorau gwaith gwahanol, yn enwedig os nad ydych wedi penderfynu beth hoffech ei wneud ar ôl y brifysgol.

Rydym yn deall nad ydych efallai wedi mynd i ffair yrfaedd o'r blaen, felly bydd y Gwasanaeth Gyrfaedd wrth law i'ch cynghori a'ch cynorthwyo. Dewch i'n gweld os gwelwch yn dda os bydd angen rhywbeth arnoch byddwn yn y brif neuadd wrth y fynedfa i'r ffair.

Ein cynghorion call ar gyfer y Ffair yw:

- *Cyrraedd ar amser – cynlluniwch ymlaen llaw.*
- *Dod ag ychydig gopiâu o'ch CV os oes modd, ac unrhyw enghreifftiau o waith yr hoffech ei arddangos.*
- *Gwisgo'n smart/anffurfiol gan y gall hyn eich helpu i deimlo'n fwy hyderus ac mae'n creu argraff dda.*
- *Bod yn barod i siarad â recriwtwyr. Bydd staff PCYDDS yno i'ch cefnogi.*
- *Cynllunio'ch diwrnod a rhoi digon o amser i siarad â chyflogwyr. Osgoi aros wrth stondinau prysur. Defnyddio'r amser i siarad ag arddangoswyr eraill o ddiddordeb, a dod yn ôl pan fydd yn dawelach.*
- *Mae'n well mynd o gwmpas y ffair ar eich pen eich hunan, yn hytrach na mewn grwpiau mawr, fel y gallwch ofyn eich cwestiynau eich hunain, a chreu argraff unigol.*
- *Gofyn am enwau unrhyw gynrychiolwyr rydych wedi siarad â nhw, ac efallai am gerdyn busnes.*
- *Cymryd amser i siarad â phob arddangoswr yn y Ffair. Dydych chi byth yn gwybod pa swyddi sy gyda nhw i'w cynnig – efallai y bydd yn wahanol i'r hyn rydych yn ei feddwl, felly mae'n well peidio â thybio nad ydyn nhw'n addas i chi a mynd i gael sgwrs – gall fod eich penderfyniad gorau erioed.*
- **Mwynhau a gwenu 😊**

POB LWC!